**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/JH/1229/23

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
SeneddEquality@senedd.wales

Copïau at: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

02 Tachwedd 2023

Annwyl Jenny,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Hydref yn gofyn am ddiweddariad ar yr uwchgynhadledd rhanddeiliaid ar Therapyddion Lleferydd ac Iaith mewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Rwyf wedi rhannu copi ohono â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae fy swyddogion wrthi'n datblygu rhaglen ar gyfer yr uwchgynhadledd a fydd yn cael ei chynnal ar-lein ym mis Rhagfyr. Bydd pob rhanddeiliad allweddol, gan gynnwys Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, yn cael ei wahodd unwaith y bydd fersiwn derfynol o'r rhaglen yn barod.

Hefyd, gallaf gadarnhau bod fy swyddogion wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Addysg a Gwasanaethau Plant i ofyn am wybodaeth am y ddarpariaeth bresennol a'r sefyllfa o ran ariannu Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn eu timau Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i lywio'r trafodaethau yn yr uwchgynhadledd.

Byddaf wrth gwrs yn rhoi gwybod ichi am hynt y materion hyn, gan sicrhau eich bod chi a'r Pwyllgor yn cael nodyn o'r trafodaethau a chanlyniadau'r uwchgynhadledd.

Yn gywir

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.